








Llywodraeth Cymru
Welsh Government









Hyfforddiant Teithio Doeth

www.cymru.gov.uk



Datblygu **Hyrwyddwyr**
ar gyfer y Dyfodol





Hyfforddiant Teithio Doeth



Darperir hyfforddiant Teithio Doeth gan Gydgysylltwyr Rhanbarthol y Cynllun Teithio, Traveline Cymru a Sustrans.

Yn ystod y sesiwn hyfforddi, bydd hyfforddeion yn cael llawlyfr hyfforddiant Teithio Doeth i'w gadw, diweddariadau yn y dyfodol pan fydd gwybodaeth yn newid, a byddant hefyd yn cael cymorth parhaus gan Gydgysylltwyr Rhanbarthol y Cynllun Teithio a'u partneriaid.

Amcanion

Bwriad hyfforddiant Teithio Doeth yw rhoi'r offer a'r sgiliau angenrheidiol i Hyrwyddwyr Teithio i fod yn bwynt cyswllt allweddol yn eich sefydliad/ cymuned. Bydd yr hyfforddiant yn galluogi Hyrwyddwyr Teithio i ledaenu gwybodaeth am drafnidiaeth gynaliadwy i aelodau eraill o staff, myfyrwyr, gwirfoddolwyr, ymwelwyr ac aelodau o'r gymuned.

Bydd hyn yn galluogi unigolion i wneud dewisiadau gwybodus am y ffordd y maent yn teithio.

Mae hyfforddiant Teithio Doeth yn ystyried yr angen am well hygyrchedd i bawb, gan gynnwys grwpiau dan anfantais, ac adlewyrchir hyn yn y pecyn hyfforddiant.

Nodau

Bydd hyfforddeion yn dysgu sut a ble i gael gwybodaeth am deithio cynaliadwy.

- Traveline Cymru, sef siop un stop ar gyfer gwybodaeth am deithio
- Sustrans Cymru ar gyfer llwybrau beicio/cerdded lleol a phecyn cymorth teithio llesol, cyngor a chymorth
- Cynlluniau rhannu ceir i ddod o hyd i bartner rhannu car addas
- Cynlluniau cludiant cymunedol lleol – darperir gwybodaeth gan awdurdodau lleol neu gan Gymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru



Mae hyfforddiant ar gael i dri math o sefydliad

Gellir cynnig hyfforddiant i'r canlynol:

- Busnesau Sector Preifat neu'r Cyhoedd
- Grwpiau Cymunedol
- Sector Addysg neu Iechyd

Mae hyfforddiant ar gael i unrhyw un yn eich sefydliad, eich cymuned neu'ch sefydliad addysg a fyddai'n llysgennad da ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy yn eich barn chi, ac sydd mewn sefyllfa dda i ddarparu gwybodaeth i eraill. Gallai hyn gynnwys, ymhlith eraill:

- Staff rheng flaen e.e. staff derbynfydd, swyddogion meysydd parcio, staff canolfan alwadau
- Arweinwyr tîm
- Adran ystadau
- Adnoddau Dynol
- Staff cyfleusterau
- Cynrychiolydd grŵp Iechyd a Lles
- Aelod o grŵp llywio cynllun teithio
- Cynrychiolwyr undebau myfyrwyr
- Cynrychiolwyr gwasanaethau myfyrwyr
- Grwpiau a chynrychiolwyr cymunedol
- Beicwyr/Grwpiau Defnyddwyr Beiciau
- Unigolion sy'n rhannu ceir eisoes

Pa sefydliadau sydd wedi cael yr hyfforddiant Teithio Doeth yn barod?

- Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Canolfan Alwadau Apwyntiadau Uniongyrchol (Abertawe Bro Morgannwg)
- Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda
- Cyngor Iechyd Cymunedol (Hywel Dda)
- Cymuned Glanyfferi
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (Sir Gaerfyrddin)
- Coleg Sir Gâr
- Coleg Castell-nedd
- Virgin Media (Staff Manpower)
- DVLA
- HSBC (Abertawe)
- Aelodau Fforwm Cymdeithas Canolfannau Galw Gorllewin Cymru
- Gyrfa Cymru
- Canolfan Byd Gwaith
- Workways (Castell-nedd Port Talbot)
- Working Links
- Colegau Addysg Bellach Grŵp Menai
- Y Canolfannau Rhagoriaeth



Astudiaethau Achos



Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Darparwyd hyfforddiant Teithio Doeth i staff Canolfan Alwadau Apwyntiadau Uniongyrchol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i gyd-fynd â phrosiect yr oedd y Bwrdd yn gyfrifol amdano yn sgil ei ran yn Ymddiriedolaeth Partneriaeth Her Iechyd Abertawe.

Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys cyflwyniadau ar gerdded a beicio, rhannu ceir a gwybodaeth am gynllun trafndiaeth gymunedol ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Dilynydd hynny gan gyflwyniad ar gael gwybodaeth am drafndiaeth gyhoeddus drwy Traveline Cymru.

Wedi gwerthuso'r hyfforddiant gwelwyd bod y math hwn o hyfforddiant wedi'i deilwra yn fuddiol iawn i'r staff a nododd eu bod bellach yn gallu teimlo perchnogaeth dros alwadau drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor mwy personol i gleifion sy'n teithio i apwyntiadau. Nododd 100% o'r tîm mai prin oedd eu gwybodaeth cyn yr hyfforddiant ond bellach roeddent yn teimlo fod yr offer ganddynt i wneud y swydd yn ogystal â'r sgiliau a'r wybodaeth i gyfleu gwybodaeth i eraill.

Canlyniad cadarnhaol yr hyfforddiant yw bod dewis o negeseuon awtomatig wedi eu hychwanegu sy'n caniatáu i alwyr ddewis gwybodaeth am sut i fynd i ysbytai drwy ddefnyddio dewisiadau teithio doeth.

Yn sgil llwyddiant yr hyfforddiant hwn, ysgogwyd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i ddarparu hyfforddiant ar gyfer ei staff ym mhob un o'i brif ysbytai aciwt.

HSBC Abertawe

Mae gan HSBC linell ffôn benodedig i dderbyn galwadau gan staff yn hysbysu am salwch ac yn gofyn am wyliau brys. Bellach mae'r llinell hon yn gallu darparu gwybodaeth teithio doeth, yn benodol pan fo gweithiwr yn nodi mai car wedi torri i lawr sy'n eu hatal rhag dod i'r gwaith.

Defnyddiwyd canlyniadau cadarnhaol hyfforddiant Teithio Doeth yn dystiolaeth i ennill gwobr Safon Iechyd Corfforaethol.

Defnyddir hyrwyddwyr teithio sydd wedi'u hyfforddi i ddarparu gwybodaeth am deithio doeth yn y sefydliad fel rhan o'r rhaglen gynefino i roi gwybodaeth teithio personol i'r holl staff newydd.

Canolfan Byd Gwaith

Dywed staff Canolfan Byd Gwaith sydd wedi'u hyfforddi bod yr hyfforddiant wedi eu gwneud yn llawer mwy hyderus wrth roi cyngor teithio personol i geiswyr gwaith. Bellach mae ganddynt ragor o wybodaeth ac maent yn gwybod ble i chwilio am wybodaeth ac adnoddau hwylus i'w defnyddio pan fo angen gwybodaeth ychwanegol.

Mae Canolfan Byd Gwaith yn cydnabod hefyd y gellir cynnig hyfforddiant Teithio Doeth a'i addasu ar gyfer ceiswyr gwaith pan fo cyflogwyr newydd yn symud i'r ardal.

Coleg Castell-nedd – Campws Dŵr y Felin

Roedd gan Goleg Castell-nedd gynllun i roi hyfforddiant galwedigaethol i unigolion ag anghenion arbennig. Darparwyd hyfforddiant Teithio Doeth i 20 myfyriwr nad oeddent erioed wedi defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.

Darparwyd hyfforddiant ymarferol iddynt ynghyd â chyflwyniadau gan Gydgysylltydd y Cynllun Teithio, Traveline Cymru a swyddog o'r Bartneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol. O ganlyniad llwyddodd pob un o'r myfyrwyr i deithio ar fws a thrên, yng nghwmni unigolyn arall, gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd yn yr hyfforddiant i gynllunio eu taith.



Cwestiynau Cyffredin



Sut bydd yr hyfforddiant hwn o fudd i fy sefydliad?

Mae manteision datblygu hyrwyddwyr teithio yn y gweithle ac mewn sefydliadau addysg yn gwella mynediad i staff a myfyrwyr, yn lleihau tagfeydd ar y safle ac yn gwella cyfraddau presenoldeb. Bydd tynnu sylw at y manteision, ynghyd â mesurau hyrwyddo posibl gan gynnwys trafniadaeth gyhoeddus, rhannu ceir a beicio a cherdded, yn annog eich cyflogwr/bwrdd i drefnu hyfforddiant Teithio Doeth ac ymwneud â gweithgareddau cynlluniau teithio. Gall hyrwyddwyr teithio gyfrannu hefyd at ddatblygu cynllun teithio busnesau/ cymunedau drwy gymryd perchnogaeth dros feysydd perthnasol.

Sut bydd hyfforddiant Teithio Doeth yn bodloni cyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol fy sefydliad?

Mae trefnu hyfforddiant Teithio Doeth ar gyfer eich staff yn fodd cynhwysol o gyfathrebu â'ch staff a bodloni cyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol penodol. Yn ogystal, gall hyfforddiant Teithio Doeth, fel rhan o ddogfen cynllun teithio'r sefydliad, roi tystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer safonau a gwobrau eraill megis:

- Safon Iechyd Gorfforaethol – e.e. teithio llesol a rhannu ceir
- Buddsoddwyr mewn Pobl – Cyfathrebu â gweithwyr
- Y Ddraig Werdd/ISO14001 – Effaith amgylcheddol a lleihau CO²

A allaf roi hyfforddiant Hyrwyddwr Teithio ar fy CV?

Gallwch. Caiff gwybodaeth am ddewisiadau teithio doeth a dealltwriaeth ohonynt eu hystyried yn sgiliau trosglwyddadwy i'w defnyddio mewn unrhyw yrfa.

Rwy'n gweithio i fusnes bach – allwn ni gael hyfforddiant neu a oes isafswm?

Mae'n bosibl bod busnesau neu grwpiau cymunedol eraill yn eich ardal a fyddai'n hoffi cael hyfforddiant Teithio Doeth hefyd. Dyma ffordd dda o weithio gyda'ch cymdogion nid yn unig i ddatblygu hyrwyddwyr teithio ond hefyd i fynd i'r afael â phroblemau cyffredin sy'n effeithio ar yr ardal. Yn y gorffennol mae gweithio mewn partneriaeth wedi llwyddo i oresgyn problemau o'r fath a gwella dewisiadau teithio.

Beth yw'r gost?

Mae AM DDIM. Ariennir Cydgysylltwyr Rhanbarthol y Cynllun Teithio gan Lywodraeth Cymru ac felly mae hyfforddiant Teithio Doeth yn cael ei ddarparu'n ddi-dâl.

Sut mae trefnu dyddiad hyfforddiant?

Os hoffech drefnu hyfforddiant Teithio Doeth ar gyfer eich sefydliad neu gymuned, cysylltwch â'ch Cydgysylltydd Rhanbarthol ar gyfer y Cynllun Teithio drwy anfon e-bost i activetravel@wales.gsi.gov.uk.



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 1 4734 1880 6
ISBN digidol 978 1 4734 1882 0
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22561